# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 14 Hydref 2020** |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Curran, A.Evans, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, N.Pearce, S.Phillips, S.Rees a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER**

Roedd yn ofid mawr i'r Maer hysbysu'r cyngor am farwolaeth ddiweddar cyn-Faer Cyngor Bwrdeistref Port Talbot, y Cynghorydd Val Kingdom.

Fel arwydd o barch, cafwyd munud o ddistawrwydd yng nghyfarfod y cyngor

Roedd y Maer yn falch iawn o gyhoeddi'r derbynwyr anrhydeddau canlynol yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2020:

Cafodd Joy Smith, Rheolwr Diogelwch Ffyrdd a Pherfformiad Busnes, CBSCNPT, ei gwneud yn Aelod o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig am wasanaethau tuag at ddiogelwch ffyrdd.

Derbyniodd Hilary Dover, Cyfarwyddwr Gwasanaeth  Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Fedal Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig am wasanaethau i'r GIG yn ystod COVID-19.

Y derbynwyr eraill a dderbyniodd Fedal Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig oedd:

Julie Simonson, Cyfarwyddwr Cangen Gymunedol, Santander am wasanaethau i'r sector ariannol a chymuned Castell-nedd.

Christopher Singletary, am wasanaethau i gyn-filwyr, eu teuluoedd a lluoedd arfog Port Talbot.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 3. DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR A'U CADARNHAU OS YSTYRIR EU BOD YN ADDAS BLWYDDYN DDINESIG 2020/2021

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 23 Medi 2020 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CORFFORAETHOL 2019/2020 - WEDI'I GYFLWYNO I'W GYMERADWYO

Cyflwynodd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yr adroddiad uchod, a gymeradwywyd i'r cyngor gan y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2020.

**PENDERFYNWYD:** 1. Cymeradwyo'r dogfennau canlynol:

- Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2019-22 (adroddiad cynnydd llawn);
- Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2019-22 (adroddiad cryno)
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun Corfforaethol

  2019 – 20.

2. Bod y tri amcan lles a nodir yn y Cynllun Corfforaethol presennol yn parhau'n berthnasol gan y cytunwyd ar yr amcanion ym mis Medi 2017 ac fe'u hadolygwyd ym mis Mawrth 2020.

5. **TREFNIADAU PLEIDLEISIO AR GYFER PENODI SWYDDOGION Y PENDERFYNWYD ARNYNT YN YSTOD CYFARFODYDD RHITHWIR Y CYNGOR**

Derbyniodd y cyngor wybodaeth am y cynnig i gyflwyno proses ddigidol i alluogi pob aelod i fwrw pleidlais dros yr ymgeisydd sydd orau ganddo yn y prosesau penodi a bennir gan gyfarfod o'r cyngor llawn ac mewn amgylchiadau lle mae'r cyngor yn cyfarfod yn rhithwir fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** 1. Cymeradwyo cyflwyno proses ddigidol i alluogi pob aelod i fwrw pleidlais dros yr ymgeisydd dewisol mewn prosesau penodi a bennir gan gyfarfod o'r cyngor llawn ac mewn amgylchiadau lle mae'r cyngor yn cyfarfod yn rhithwir ar-lein i wneud hynny.

2. Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i newid Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor a nodir yng

Nghyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot drwy ddileu cymal 14.7 a rhoi'r canlynol yn ei le (tanlinellir y diwygiad):

"Os oes mwy na dau berson wedi'u henwebu i lenwi unrhyw swydd ac nid oes mwyafrif clir o bleidleisiau o blaid un person, yna bydd enw'r person sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau'n cael ei dynnu oddi ar y rhestr a phleidlais newydd yn cael ei gymryd.  Bydd y broses yn parhau hyd nes y bydd mwyafrif y pleidleisiau ar gyfer un person.

Pan fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal o bell, bydd y broses yn cael ei chynnal drwy swyddogaeth bleidleisio a fabwysiadwyd gan y cyngor i alluogi Aelodau i gofrestru'r ymgeisydd dewisol. Bydd canlyniadau'r holiadur yn cael eu coladu mewn cronfa ddata y gall Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, Pennaeth Adnoddau Dynol a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ei defnyddio.

Mewn amgylchiadau lle mae materion technegol yn golygu na all Aelod gael mynediad at y ddolen i'r holiadur, gofynnir i'r Aelod e-bostio'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd i gadarnhau hyn a chadarnhau ei bleidlais. Caiff yr e-bost ei gadw'n gyfrinachol ynghyd â gwybodaeth y gronfa ddata at ddibenion llywodraethu'n unig.

## 6. <u>NEWIDIADAU I GYNRYCHIOLAETH AELODAU</u>

**PENDERFYNWYD:** Y bydd Cyng. S Pursey yn llenwi'r swydd wag ar Fforwm Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

7. **PENODI CYFARWYDDWR ADDYSG, HAMDDEN A DYSGU GYDOL OES**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r trefniadau i recriwtio'r Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

8. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 9 isod, cytunodd y Maer y gellid ei drafod yng nghyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser

9. **COVID-19 - DIWEDDARIAD LLAFAR GAN ARWEINYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y nifer cynyddol o achosion COVID-19 yn yr ardal. O ganlyniad, roedd cyfyngiadau lleol wedi'u gosod ar Gastell-nedd Port Talbot gan Lywodraeth Cymru i geisio atal nifer yr heintiau. Nodwyd pe bai nifer yr heintiau'n parhau i gynyddu fod Llywodraeth Cymru'n ystyried cyfyngiadau ychwanegol. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd Aelodau'n parhau i atgyfnerthu'r canllawiau, golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol, gwisgo mygydau pan fo angen a hunanynysu os oeddent yn profi symptomau yn eu cymunedau.

Yn dilyn hyn, gofynnodd yr Aelodau a ellid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw glystyrau o achosion COVID-19 sy'n datblygu yn eu wardiau ac a ellid rhannu unrhyw ddata neu fapiau ag Aelodau. Esboniwyd bod y data a ddefnyddiwyd wedi'i gynhyrchu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a'i fod yn newid mor gyflym y byddai wedi dyddio erbyn iddo gael ei rannu. Byddai swyddogion, lle bo modd, yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

**CHAIRPERSON**